Beth yw Bedydd?

CAERSALEM
Chwefror 2016

Mae Bedydd crediniwr yn foment arbennig iawn ar lwybr ffydd. Dyma'r foment y mae presenoldeb a bendith Duw yn ein cyfarfod, a dyma pryd y byddwn yn gwneud arwydd gyhoeddus o'n ffydd bersonol yn Iesu fel Arglwydd a Gwaredwr. **Arwydd allanol o newid mewnol sydd eisoes wedi cymryd lle.**

Mae'n nodi **diwedd yr hen fywyd a'r ail-eni i fywyd newydd yng Nghrist.** Fel arfer bydd yn fedydd lle bydd y corff i gyd wedi ei roi dan y dŵr ac yna ei godi yn ôl i fyny allan o'r dŵr. Mae Bedyddio fel yma yn **arwydd o edifeirwch a glanhad**, o uniaethu gydag Iesu yn ei farwolaeth a'i atgyfodiad, a **derbyn galwad Duw ar ein bywyd.**

Mae Bedydd hefyd yn **symbol o dderbyn Ysbryd Duw** i'n cynorthwyo i'w wasanaethu yn y byd.

Bydd llawer o Fedyddwyr yn eiddgar i roi croeso a chadarnhau Cristnogion sydd â stori wahanol o ran eu bedydd a'u camau tuag at ffydd, ond yn parhau i gredu o argyhoeddiad mae bedydd crediniwr yw'r patrwm a welwn yn yr ysgrythur:

1 Esiampl Iesu: Bedyddiwyd Iesu gan Ioan Fedyddiwr (Mathew 3:13-17; Marc 1:9-11; Luc 3:21-22)

2 Gorchymyn Iesu: Yn y Comisiwn Mawr (Mathew 28:18-20) mae Iesu'n dweud: *"Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân."*

3 Ers y dechrau dyma oedd patrwm Eglwys Iesu Grist: Ar ddiwrnod y Pentecost mae Pedr yn dweud wrth y bobl: *"Rhaid i chi droi cefn ar eich pechod, a chael eich bedyddio fel arwydd eich bod yn perthyn i Iesu y Meseia a bod Duw yn maddau eich pechodau chi. Wedyn byddwch chi'n derbyn yr Ysbryd Glân yn rhodd gan Dduw."* (Actau 2:38)

Er bod Bedydd yn arwydd o ffydd bersonol yn Iesu Grist, **mae'r ffydd Gristnogol yn ffydd sydd i'w fyw mewn cymuned gyda Christnogion eraill** yn yr eglwys leol. Mae Bedydd yn **arwydd eich bod wedi ymuno a'r corff o gredinwyr mae Iesu'n ei alw'n briodferch iddo**.

Yn ogystal â bod yn arwydd o ymrwymiad i Iesu **ddylai Bedydd hefyd fod yn arwydd o ymrwymiad i gorff Iesu sef yr Eglwys**, ac felly mae aelodaeth eglwysig yn cael ei annog i rheiny sy'n mynd trwy ddŵr y bedydd.

Believer's baptism is a very special moment on the journey of faith. It is a moment when God's presence and blessing meets us, and when we make our personal commitment of faith in Jesus as Lord public. **An outward sign of an inner change that has already taken place.**

It signifies **the end of our old life and of being born again to new life in Christ.** Normally taking place by full immersion in water, **it speaks of repentance and cleansing**, of being united with Christ in his death and resurrection, and of **witnessing to the call of God upon our lives.**

Baptism is also about **receiving God's Spirit** for service in the church and in the world.

Many Baptists will want to welcome and affirm those who have a different story to tell of how they have been baptised and come to faith, while still declaring our conviction that believer's baptism is the pattern that is set out for us in scripture:

1 Jesus set an example: Jesus was baptised by John the Baptist (Matthew 3:13-17; Mark 1:9-11; Luke 3:21-22).

2 Jesus commands us: In the Great Commission (Matthew 28:18-20), Jesus says, *"Therefore go and make disciples of all nations, baptising them in the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit"*

3 From the begining this was the practise of the Church of Jesus Christ: On the Day of Pentecost, Peter tells the people to *"Repent and be baptised, every one of you, in the name of Jesus Christ for the forgiveness of your sins. And you will receive the gift of the Holy Spirit"* (Acts 2:38).

Although Baptism is a sign of personal faith in Jesus Christ, **the Christian faith is faith that is to be lived in community with other Christians** in the local Church. Baptism is **a sign that you have joined the body of believers Jesus called his bride.**

A Baptism should not only be a sign of commitment to Jesus but **also a commitment to his body the Church**, so Church membership is encouraged to those who go through the waters of Baptism.